NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ocrelizumab ar gyfer trin sglerosis ymledol atglafychol-ysbeidiol

25 Gorffennaf 2018

Mae ocrelizumab (Ocrevus) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer sglerosis ymledol atglafychol-ysbeidiol mewn oedolion sydd ag afiechyd gweithredol (a ddiffinnir gan arwyddion a symptomau clinigol, neu ddelweddu) dim ond os na ellir cymryd alemtuzumab.

Os nad ydych yn gymwys i gael ocrelizumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymdeithas Sglerosis Ymledol, 0808 800 8000
- Ymddiriedolaeth Sglerosis Ymledol, 0800 032 3839

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3019-7

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights